



ROBERT A. SULLY
B.Sc., C.Eng., C.Env., M.I.C.E., M.C.M.I., M.I.o.D.

Cyfarwyddwr
Adran Addysg a Phlant
Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP

Director
Department for Education and Children
County Hall, Carmarthen SA31 1JP

Ffôn • Tel :
01267 234567

e-bost • e-mail :
educationwelfare@sirgar.gov.uk

Eich cyf • Your ref :

Fy nghyf • My ref : C/RAS/BTJ/HW

Dyddiad • Date : Tachwedd 12fed, 2013

Gofynner am • Please ask for : **Education Welfare Service**

Llinell Uniongyrchol • Direct Line: 01267 234567

Annwyl Riant/Ofalwr,

Presenoldeb yn yr Ysgol

Rhodddwyd croeso cyffredinol i'm llythyr agored at rieni a gofalwyr ym mis Medi 2013, lle roeddwn yn ategu pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol i ddatblygiad addysgol plant. Fodd bynnag, mae rhai rhieni wedi gofyn am eglurhad ar rai materion cysylltiedig.

O edrych yn ôl, rwy'n cydnabod y gallem o bosibl fod wedi gwneud mwy i egluro'r manylion sy'n gysylltiedig ag elfennau o'r disgwyliadau ynghylch presenoldeb yn yr ysgol, ac rwy'n ymddiheuro os yw hyn wedi achosi pryder diangen. Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ail lythyr hwn i roi eglurhad ar y materion a godwyd gyda ni.

Heb unrhyw amheuaeth o gwbl, mae'n rhaid i blant gyrchu'r holl ofal meddygol, deintyddol neu iechyd a lles proffesiynol arall y mae ei angen arnynt. Yr hyn rydym ni'n gofyn i rieni ei wneud yw ystyried yn ofalus sut maent yn cyrchu'r gwasanaethau pwysig hyn. Yn arbennig, gofynnwn i rieni wneud pob ymdrech i osgoi tynnu plant allan o'r ysgol ar gyfer apwyntiadau cyffredin, nad ydynt yn fater o frys.

Wrth apwyntiadau cyffredin rydym yn golygu asesiadau cyfnodol megis gwiriadau deintyddol, archwiliadau optegol achlysurol, ymgynghori cyffredinol â'r meddyg, ac ati, lle gall rhieni/gwarcheidwaid ddylanwadu ar amseriad apwyntiadau. Mae llawer o feddygfeydd a deintyddion yn cynnig amserau cyfleus ar gyfer y cyfryw apwyntiadau, y tu allan i oriau ysgol, a'r cyfan yr ydym ni'n gofyn amdano yw cydweithrediad rhieni/gofalwyr i drefnu ymweliadau o'r fath, lle bynnag y bo modd, y tu allan i oriau ysgol, er mwyn lleihau'r effaith ar addysg plant gymaint â phosibl, ond gan sicrhau ar yr un pryd bod plant yn derbyn yr holl gymorth meddygol, deintyddol neu arall y mae ei angen arnynt.

Wrth gwrs, bydd ar rai plant angen triniaeth gan feddygon neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill mewn lleoliadau megis ysbytai, gan orthodeintydd, ac ati, lle na all rhieni/gofalwyr reoli amseriad yr apwyntiadau, ac o dan yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid i'r plant fynd i'r apwyntiadau yn ôl y galw.

Mae iechyd a lles plant yn bwysicach na dim. Mewn achosion o'r fath, awdurdodir yr absenoldeb pan fydd y rhiant/gofalwyr yn cyflwyno'r cerdyn neu'r llythyr apwyntiad i'r ysgol.

Yn ôl Deddf Addysg 1996 mae plant yn gorfod mynd i'r ysgol rhwng 5 ac 16 oed, yn amodol ar y canlynol:

- Mae plentyn yn cyrraedd oed ysgol gorfodol ar ddiwrnod cyntaf y tymor ar ôl ei b/phen-blwydd yn 5 oed.

Gall diwrnod cyntaf y tymor fod:

- ym mis Medi ar y diwrnod pan fydd ysgolion yn agor eto ar ôl gwyliau'r haf;
 - ym mis Ionawr ar y diwrnod cyntaf pan fydd ysgolion yn agor eto ar ôl gwyliau'r Nadolig, neu
 - ym mis Ebrill ar y diwrnod cyntaf pan fydd ysgolion yn agor eto ar ôl gwyliau'r Pasg.
- Mae cyfnod oed ysgol gorfodol plentyn yn dod i ben:
 - Ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin os yw'n cael ei b/phen-blwydd yn 16 oed ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny, neu
 - Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn academaidd ym mis Gorffennaf os yw'r plentyn yn cael ei b/phen-blwydd yn 16 ar ôl dydd Gwener olaf mis Mehefin.

Mae plant yn Sir Gaerfyrddin yn elwa o gael addysg ysgol yn llawer iau na'r hyn sy'n statudol ofynnol. Er mai i blant oed ysgol statudol yn unig y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol, rydym ni'n credu bod yr egwyddorion ynghylch presenoldeb rheolaidd plant yn yr ysgol yr un mor berthnasol i bob plentyn, ac felly gofynnwn am gydweithrediad pob rhiant/gofalwr i sicrhau bod eu presenoldeb yn yr ysgol mor uchel â phosibl, gan fod hynny'n amlwg er budd y plant.

Mae nifer bychan o rieni/gofalwyr wedi rhoi gwybod i ni eu bod wedi trefnu gwyliau cyn i'r newid polisi hwn gael ei gyhoeddi. O dan yr amgylchiadau hyn, rydym yn derbyn bod rhieni/gofalwyr wedi gweithredu'n ddidwyll, ac felly mae'n bleser gen i gadarnhau, os bydd rhieni/gofalwyr yn darparu tystiolaeth i'r ysgol bod y trefniant wedi'i wneud cyn i'r llythyr cychwynnol gael ei ryddhau, y bydd yr ysgol yn awdurdodi'r absenoldeb y tro hwn.

Mae'r Awdurdod wedi rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru o sicrhau bod plant yn cael y cyfle gorau posibl i gyflawni eu potensial, ac nad ydynt yn colli amser yn yr ysgol yn ddiangen. Os oes gennych bryderon am bresenoldeb eich plentyn, neu os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'ch ysgol leol.

Gobeithio bydd y wybodaeth uchod o werth i chi, ac edrychaf ymlaen at eich cydweithrediad parhaus i sicrhau bod holl blant Sir Gaerfyrddin yn cael y budd mwyaf posibl o'u haddysg yn ein hysgolion.

Yn gywir,

R. A. Sully
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant